# Cod Ymarfer ar Ddarpariaeth Gydweithredol

Cod 12: 2026 Fersiwn 1.0
Yn dod i rym: 2 Mawrth 2026

PRIFYSGOL BANGOR UNIVERSITY

| Dyddiad | Yn disodli | Disgrifiad o'r Newid |
|---|---|---|
| 2 Mawrth 2026 | 2021 Fersiwn 01 | Diweddariad Interim |
| 1 Awst 2021 | 2020 Fersiwn 1.2 | Mae Categori A wedi'i rannu'n ddau is-gategori. |
| 6 Gorffennaf 2021 | 2020 Fersiwn 1.1 | Cywiro mân wallau. |
| 17 Tachwedd 2020 | 2020 Fersiwn 01 | Mae'r Ganolfan Addysg Ryngwladol yn cadw rôl wrth gyflwyno partneriaid rhyngwladol ar gyfer darpariaeth categori A ac wrth baratoi gwaith papur categori B. |

| Perchennog y Ddogfen | Cymeradwywyd gan | Dyddiad cymeradwyo | Amlder Adolysgu |
|---|---|---|---|
| Dirprwy Gofrestrydd Academaidd: Ansawdd a Safonau | Pwyllgor Rheoliadau ac Achosion Arbennig y Senedd. | 2 Mawrth 2026 | Bob tair blynedd. |

Sylwer: Mewn amgylchiadau eithriadol, ac yn amodol ar gymeradwyaeth Cadeirydd Pwyllgor Rheoliadau ac Achosion Arbennig y Senedd gall cyfrifoldebau a neilltuir i Ysgolion, Penaethiaid Ysgol, Swyddogion Ysgol neu Bwyllgorau Ysgol yn y Rheoliadau hyn gael eu mabwysiadu gan y Coleg, Pennaeth y Coleg, Swyddogion y Coleg neu Bwyllgorau'r Coleg yn y drefn honno, fel y bo'n briodol.

# Cod Ymarfer ar Ddarpariaeth Gydweithredol

PRIFYSGOL BANGOR UNIVERSITY

**Cynnwys**


1. Rhagarweiniad 3
2. Math o Bartneriaeth 3
3. Llywodraethu, Perchnogaeth Risg ac Uwchgyfeirio 8
4. Addasrwydd Strategol 9
5. Prif Egwyddorion 9
6. Swyddogaethau a Chyfrifoldebau 10
7. Sefydlu Partneriaeth Newydd 13
8. Rheoli Partneriaethau 14

## 1. Rhagarweiniad

- Mae'r Cod Ymarfer hwn yn berthnasol i drefniadau lle mae'r Brifysgol yn cydweithio ag un neu fwy o sefydliadau i gyflawni agweddau ar addysgu, dysgu, asesu a chefnogaeth i fyfyrwyr. Mae'n berthnasol i bartneriaethau yn y Deyrnas Unedig ac yn rhyngwladol ac yn cynnwys rhaglenni hyfforddedig ac ymchwil. Mae'r Cod Ymarfer yn berthnasol i raglenni cyfan ac i elfennau o gyrsiau fel modiwlau unigol. Nid yw'r Cod Ymarfer yn cwmpasu Dysgu Seiliedig ar Waith.

- Mae'r Cod Ymarfer yn glynu wrth ofynion Cod Ansawdd y DU ar gyfer Addysg Uwch yr Asiantaeth Sicrhau Ansawdd (QAA) ac yn benodol at y Cyngor a'r Canllawiau ar gyfer Partneriaethau (2018).

- Rhaid darllen y Cod Ymarfer hwn ar y cyd â Rheoliadau, Codau Ymarfer a chanllawiau perthnasol y Brifysgol, sydd ar gael ar wefan y Brifysgol (https://www.bangor.ac.uk/regulations/index.php.cy)

- Mae'r Cod Ymarfer hwn wedi'i gynllunio i hyrwyddo arferion da wrth ddatblygu Partneriaethau a sicrhau systemau priodol a chymesur i nodi, rheoli a lliniaru'r risgiau dan sylw.

- Mae canllawiau ar gael gan y tîm Ansawdd a Safonau drwy e-bostio ansawddasafonau@bangor.ac.uk

## 2. Math o Bartneriaeth

- Mae nifer o wahanol fathau o fodelau cydweithredol yn bodoli ar gyfer gweithgarwch partneriaeth. Mae'r deipoleg isod yn rhoi amlinelliad byr o rai o'r trefniadau cydweithredol mwyaf cyffredin mewn Addysg Uwch yn y Deyrnas Unedig, eu lefel risg, eu llwybr cymeradwyo a'u cyfrifoldeb rheoli yn y Brifysgol. Lle mae angen amrywiadau i fodelau cydweithredol i ddarparu ar gyfer amgylchiadau neu anghenion penodol, bydd y rhain yn cael eu hystyried a'u monitro drwy'r prosesau perthnasol a amlinellir yn y Cod Ymarfer hwn.

- Mae'r Asiantaeth Sicrhau Ansawdd yn ei gwneud yn ofynnol i'r Brifysgol sicrhau bod prosesau priodol a chymesur ar waith i reoli'r risgiau a nodwyd. Bydd proses asesu risg yn pennu lefel y risg sy'n gysylltiedig â phroject cydweithredol arfaethedig. Bydd y risgiau sy'n gysylltiedig â phob cynnig yn dibynnu ar natur y gweithgaredd. Ar gyfer gweithgaredd risg isel a chanolig, mae'r asesiadau risg wedi'u cynnwys yn y cais a'r ffurflenni diwydrwydd dyladwy cychwynnol. Ar gyfer gweithgaredd risg uchel, bydd asesiadau diwydrwydd dyladwy ac asesiadau risg cynhwysfawr yn cael eu cwblhau ochr yn ochr ag achos busnes llawn. Mae'r lefelau risg a restrir yn y tabl isod yn cynrychioli'r lefel risg a ragwelir ar y dechrau ar gyfer amrywiaeth o wahanol fathau o weithgarwch cydweithredol; gall lefelau risg newid dros amser a byddant yn cael eu rheoli yn unol â hynny.

| **Categori** | **Disgrifiad** | **Lefel Risg** | **Datblygiad Cychwynnol dan Arweiniad** | **Llwybr Cymeradwyo** |
|---|---|---|---|---|
| Rhaglenni Cyfnewid Myfyrwyr | Gall trefniadau Rhaglenni Cyfnewid Myfyrwyr gynnwys myfyrwyr Prifysgol Bangor yn astudio dramor am un neu ddau semester neu fyfyrwyr rhyngwladol yn astudio ym Mhrifysgol Bangor am un neu ddau semester. | Isel | Y Ganolfan Addysg Ryngwladol | Wedi'i gymeradwyo gan yr Ysgol Wedi'i gadarnhau yn y Grŵp Cyflawni - Darpariaeth Gydweithredol |
| Trefniadau modiwlaidd | Modiwlau Prifysgol Bangor a gyflwynir mewn cydweithrediad â sefydliad allanol, y mae ei staff yn gwneud cyfraniad sylweddol at addysgu ac asesu myfyrwyr. Caiff yr holl gyfraniadau eu cymedroli gan staff Prifysgol Bangor ac Arholwyr Allanol a benodir gan y Brifysgol. | Isel | Ysgolion Academaidd | Wedi'i gymeradwyo ar lefel yr Ysgol Wedi'i gadarnhau yn y Grŵp Cyflawni - Darpariaeth Gydweithredol |
| Cytundeb Cydweddu | Trefniant lle mae myfyrwyr sy’n cwblhau’n llwyddiannus raglen astudio gymeradwy mewn sefydliad partner yn cael addewid o le ar un o raglenni israddedig Prifysgol Bangor ag achrediad parod. | Canolig | Y Ganolfan Addysg Ryngwladol | Wedi'i gymeradwyo yn y Grŵp Cyflawni - Darpariaeth Gydweithredol |
| Canolfannau Hyfforddiant Doethurol | Rhaglenni ymchwil a hyfforddiant gwyddonol i fyfyrwyr ôl-radd a ariennir gan gynghorau ymchwil y Deyrnas Unedig. | Amrywio | Ymchwil a Menter | Y Pwyllgor Ymchwil |
| Cymhwyster ar y cyd | Trefniant lle mae'r Brifysgol a chorff dyfarnu graddau arall gyda'i gilydd yn darparu rhaglen sy'n arwain at un dyfarniad a wneir ar y cyd gan y ddau gyfranogwr. Cyhoeddir tystysgrif gradd sengl sy'n dwyn enwau'r ddau sefydliad a'u hawdurdodau cymwys adeg graddio. | Uchel | Partneriaethau Cartref: Cynllunio ar gyfer cymeradwyaeth strategol gan gynnwys achos busnes, yna ansawdd a safonau ar gyfer | Y Panel Portffolio Academaidd (a'r Bwrdd Gweithredol/ Cyngor lle bo angen) |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | | ymweliad safle a chymeradwyo cwricwlwm<br><br>Partneriaethau Byd-eang: ar gyfer achos busnes a chymeradwyaeth strategol ac yna ansawdd a safonau ar gyfer ymweliad safle a chymeradwyo cwricwlwm | |
| Cymhwyster deuol | Trefniant lle mae'r Brifysgol ac un neu fwy o gyrff eraill sydd â phwerau dyfarnu graddau gyda'i gilydd yn darparu un rhaglen a gyflwynir ar y cyd sy'n arwain at gymwysterau ar wahân ac ardystiad ar wahân gan bob sefydliad. | Uchel | Partneriaethau Cartref: Cynllunio ar gyfer cymeradwyaeth strategol gan gynnwys achos busnes, yna ansawdd a safonau ar gyfer ymweliad safle a chymeradwyo cwricwlwm<br><br>Partneriaethau Byd-eang: ar gyfer achos busnes a chymeradwyaeth strategol ac yna ansawdd a safonau ar gyfer | Y Panel Portffolio Academaidd (a'r Bwrdd Gweithredol/ Cyngor lle bo angen) |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | | ymweliad safle a chymeradwyo cwricwlwm | |
| Coleg Cynwysedig | Coleg cynwysedig ar y campws i fyfyrwyr ddechrau eu hastudiaethau ym Mhrifysgol Bangor. Er enghraifft, i gyflwyno camau cyntaf y radd baglor Gynwysedig Ryngwladol a'r rhaglen Meistr Gynwysedig Ryngwladol. | Uchel | Partneriaethau Cartref: Cynllunio ar gyfer cymeradwyaeth strategol gan gynnwys achos busnes, yna ansawdd a safonau ar gyfer ymweliad safle a chymeradwyo cwricwlwm<br><br>Partneriaethau Byd-eang: ar gyfer achos busnes a chymeradwyaeth strategol ac yna ansawdd a safonau ar gyfer ymweliad safle a chymeradwyo cwricwlwm | Y Panel Portffolio Academaidd (a'r Bwrdd Gweithredol/ Cyngor lle bo angen) |
| Cytundeb Breinio | Trefniant lle mae'r Brifysgol yn awdurdodi sefydliad partner cymeradwy i gyflwyno un o raglenni'r Brifysgol. Rhaid cyflwyno'r rhaglen yn unol â rheoliadau a gweithdrefnau'r Brifysgol. | Uchel | Partneriaethau Cartref: Cynllunio ar gyfer cymeradwyaeth strategol gan gynnwys achos busnes, yna ansawdd a safonau ar gyfer | Y Panel Portffolio Academaidd (a'r Bwrdd Gweithredol/ Cyngor lle bo angen) |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | | ymweliad safle a chymeradwyo cwricwlwm<br><br>Partneriaethau Byd-eang: ar gyfer achos busnes a chymeradwyaeth strategol ac yna ansawdd a safonau ar gyfer ymweliad safle a chymeradwyo cwricwlwm | |
| Cytundeb Dilysu | Proses lle mae'r Brifysgol yn barnu modiwl neu raglen a ddatblygwyd ac a gyflwynwyd gan sefydliad arall ac yn ei gymeradwyo/chymeradwyo fel un o safon ac ansawdd priodol i arwain at gymhwyster gan y Brifysgol. Cyflwynir y rhaglen yn unol â rheolau a rheoliadau'r partner, ond rhaid i'r rhain gael eu cymeradwyo ymlaen llaw gan y Brifysgol. | Uchel | Partneriaethau Cartref: Cynllunio ar gyfer cymeradwyaeth strategol gan gynnwys achos busnes, yna ansawdd a safonau ar gyfer ymweliad safle a chymeradwyo cwricwlwm<br>Partneriaethau Byd-eang: ar gyfer achos busnes a chymeradwyaeth strategol ac yna ansawdd a safonau ar gyfer ymweliad | Y Panel Portffolio Academaidd (a'r Bwrdd Gweithredol/ Cyngor lle bo angen) |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | | safle a chymeradwyo cwricwlwm | |

## 3. Llywodraethu, Perchnogaeth Risg ac Uwchgyfeirio

- Mae'r Brifysgol yn gweithredu fframwaith llywodraethu strwythuredig i sicrhau goruchwyliaeth briodol, uwchgyfeirio a rheoli risg sy'n gysylltiedig â darpariaeth gydweithredol. Er bod monitro o ddydd i ddydd yn digwydd ar lefel rhaglenni a phartneriaethau, y Brifysgol sy'n parhau i fod yn gyfrifol yn y pen draw am safonau academaidd, sicrhau a gwella ansawdd, diogelu myfyrwyr, dichonoldeb ac enw da'r sefydliad.

- Rheolir risgiau darpariaeth gydweithredol ar draws tair categori eang:
  - **Risg weithredol:** materion sy'n effeithio ar ddarpariaeth, gweinyddiaeth, staffio neu brofiad myfyrwyr o ddydd i ddydd.
  - **Risg sylweddol:** materion a allai effeithio ar safonau academaidd, cydymffurfiaeth reoleiddiol, cynaliadwyedd ariannol neu berfformiad partneriaid os na chânt eu datrys.
  - **Risg strategol:** materion sydd â goblygiadau posibl i'r Brifysgol o ran enw da, cyfreithiol, rheoleiddiol neu ddiogelu myfyrwyr.

- Amlinellir perchnogaeth risg fel a ganlyn:
  - Mae **Grwpiau Gweithredol** yn gyfrifol am nodi, monitro a rheoli risgiau gweithredol ac am uwchgyfeirio pryderon lle na ellir datrys problemau yn lleol neu o fewn terfynau amser y cytunir arnynt.
  - **Byrddau Rheoli Partneriaethau** yw perchnogion dynodedig risg lefel partneriaeth ac maent yn gyfrifol am oruchwylio risgiau sylweddol a strategol sy'n gysylltiedig â'r bartneriaeth.
  - Mae’r **Panel Portffolio Academaidd a'r Grŵp Cyflawni - Darpariaeth Gydweithredol** yn darparu goruchwyliaeth sefydliadol o ddarpariaeth gydweithredol ac yn derbyn risgiau sydd wedi’u huwchgyfeirio ac argymhellion gan Fyrddau Rheoli Partneriaethau mewn perthynas â chymeradwyaeth strategol/ailgymeradwyo/ehangu darpariaeth gydweithredol (y Panel Portffolio Academaidd) a'i monitro parhaus (y Grŵp Cyflawni - Darpariaeth Gydweithredol).
  - Lle bo'n briodol, gall y Panel Portffolio Academaidd / y Grŵp Cyflawni - Darpariaeth Gydweithredol uwchgyfeirio risgiau i’r **Bwrdd Gweithredol a/neu'r Senedd**, yn unol â fframwaith llywodraethu’r Brifysgol.

- Rhaid uwchgyfeirio'r canlynol y tu hwnt i'r Grŵp Gweithredol i Fwrdd Rheoli’r Bartneriaeth:
  - Adroddiadau 'achos pryder' dro ar ôl tro neu heb eu datrys
  - Methiant gan bartner i gydymffurfio â'r Memorandwm Cytundeb neu gynlluniau gweithredu y cytunwyd arnynt.
  - Pryderon anffafriol neu ailadroddus a godir gan Arholwyr Allanol
  - Dirywiad sylweddol yng nghanlyniadau, profiad neu gynnydd myfyrwyr.

    - Risgiau sydd â goblygiadau posibl o ran enw da, rheoleiddiol neu ddiogelu myfyrwyr.

- Rhaid i uwchgyfeirio o'r Bwrdd Rheoli Partneriaeth i'r Grŵp Cyflawni - Darpariaeth Gydweithredol / Panel Portffolio Academaidd (a thu hwnt, lle bo'n briodol) ddigwydd lle:
    - Caiff risgiau eu hasesu fel rhai sylweddol neu strategol.
    - Mae'r bartneriaeth yn methu â gweithredu camau unioni y cytunwyd arnynt.
    - Gall parhau i ddarparu beri i'r Brifysgol wynebu risg academaidd, gyfreithiol, ariannol neu risg annerbyniol i enw da.

## 4. Addasrwydd Strategol

- Dylai darpariaeth partneriaeth gydweithredol gyd-fynd â Strategaeth 2030 y Brifysgol a’r weledigaeth i ddod yn brifysgol fyd-eang ei chysylltiadau, sy’n manteisio ar gyfleoedd i lwyddo trwy ymchwil ac addysgu trawsnewidiol ac arloesol sy’n seiliedig ar effaith, gydag ymrwymiad i gynaliadwyedd.

- Lle mae darpariaeth gydweithredol yn llwyddiannus, mae'n cynnig ystod eang o fanteision, sy'n cefnogi'r Brifysgol i gyflawni ei hamcanion strategol, gan gynnwys:

    - **Rhagoriaeth Ymchwil** i gefnogi'r Brifysgol i wneud ymchwil arloesol gyda'r orau yn y byd
    - **Profiadau Dysgu Trawsnewidiol** i rymuso myfyrwyr i ddatgloi eu potensial
    - **Profiad Rhagorol** i Fyfyrwyr drwy bartneru â sefydliadau sy'n rhannu ein hamcanion, ein dyheadau a'n hymrwymiad i brofiad myfyrwyr
    - **Amgylchedd Dwyieithog lle mae’r Gymraeg yn Ffynnu** drwy hyrwyddo iaith a diwylliant Cymru a darparu cyfleoedd cyfrwng Cymraeg i fyfyrwyr a staff mewn sefydliadau partner.

## 5. Prif Egwyddorion

- Y Brifysgol sy’n gyfrifol am y safonau academaidd ac am ansawdd profiad myfyrwyr yr holl wobrau a ddyfernir yn ei henw. Rhaid i bob gweithgarwch partneriaeth fodloni disgwyliadau, arferion craidd a chyffredin Cod Ansawdd y DU ar gyfer Addysg Uwch a Fframwaith Credydau a Chymwysterau Cymru. Os cynigir darpariaeth ar lefel 3, rhaid iddi fodloni gofynion y corff dyfarnu.

- Rhaid i bob gweithgarwch cydweithredol gyd-fynd â nodau strategol hollgyffredinol y Brifysgol. Bydd datblygiadau newydd gyda phartneriaid o ansawdd uchel sy'n rhannu gweledigaeth ac uchelgeisiau strategol y Brifysgol a byddant yn gwella enw da'r Brifysgol a/neu'n ehangu mynediad at addysg uwch.

- Gall y syniad am bartneriaeth newydd neu weithgarwch cydweithredol ychwanegol o fewn partneriaeth sy’n bod eisoes ddod gan y Brifysgol, sefydliad partner neu asiantaeth allanol a gall adlewyrchu angen sefydliadol, grymoedd y farchnad neu

reidrwydd addysgol. Dylid canfod cyn gynted â phosibl faint o gefnogaeth sydd gan yr Ysgol a'r adnoddau sydd ar gael i gyflawni mentrau newydd.

- Fel rheol dylai darpariaeth gydweithredol fod mewn maes y mae gan y brifysgol arbenigedd ynddo ynghyd â chynnig rhaglenni tebyg, a dylai'r ysgol neu ysgolion perthnasol yn y brifysgol fod yn rhan ohoni. Mae'n rhaid i ysgolion arwain yn weithredol ar oruchwylio'r holl gynnwys academaidd a gofynion adnoddau academaidd-gysylltiedig ar gyfer darpariaeth gydweithredol, ac mae'n rhaid iddynt roi adnoddau digonol, gan gynnwys amser staff, i sicrhau y cyflawnir gofynion y Brifysgol.

- Gall partneriaeth gydweithredol ymwneud ag unrhyw lefel o ddarpariaeth hyfforddedig neu oruchwyliaeth ymchwil a chael ei chyflwyno drwy amrywiol ddulliau neu foddau astudio. Cynghorir cydweithwyr i feithrin perthnasoedd o bartneriaethau risg isel cyn symud ymlaen i gyfleoedd masnachfraint neu ddilysu risg uwch wrth gynnig trefniadau partneriaeth newydd. Bydd tystiolaeth o berthynas lwyddiannus sy'n bodoli eisoes â sefydliad allanol yn cynyddu'r siawns o gael cymeradwyaeth strategol ar gyfer trefniadau cydweithredol risg uchel.

- Rhaid i unrhyw bartner o'r Deyrnas Unedig, heblaw pan eithriwyd hynny'n benodol yn y Memorandwm Cytundeb, fod yn noddwr myfyriwr UKVI cydnabyddedig, er mwyn i'r Brifysgol gael sicrwydd bod y partner mewn sefyllfa i gyflawni ei rwymedigaethau i adran Fisâu a Mewnfudo'r DU (UKVI) lle gellir derbyn myfyrwyr rhyngwladol i'r rhaglen.

- Rhaid i weithgarwch cydweithredol fod yn gynaliadwy yn ariannol ac yn ddarostyngedig i gytundeb cyfreithiol-rwym sy'n nodi telerau ariannol y trefniadau.

- Mae darpariaeth gydweithredol yn ddarostyngedig i brosesau sicrhau ansawdd fel yr amlinellir yng Nghodau Ymarfer, gweithdrefnau a chanllawiau'r Brifysgol a rhaid i bartneriaid gael gweithdrefnau llywodraethu cadarn ar waith er mwyn glynu wrth y prosesau sicrhau ansawdd angenrheidiol. Ni ddylai gweithgarwch cydweithredol danseilio statws yr addysg na'r cymwysterau a gynigir gan y Brifysgol.

- Ni fydd y Brifysgol yn cymeradwyo unrhyw gynigion ar gyfer trefniadau cyfresol i gyflwyno darpariaeth gydweithredol. Mae trefniant cyfresol yn digwydd pan fydd y sefydliad cyflwyno (trwy drefniant ei hun) yn cynnig rhaglenni cyfan (breiniol neu wedi'u dilysu gan Fangor fel y corff dyfarnu graddau) yn rhywle arall neu'n pennu pwerau a ddirprwywyd iddo gan y corff dyfarnu graddau i barti arall.

- Cymraeg neu Saesneg fydd yr iaith hyfforddi ac iaith yr holl waith a asesir fel rheol, ac eithrio yn achos pynciau lle mai iaith yw'r pwnc astudio.

## 6. Swyddogaethau a Chyfrifoldebau

- Bydd darpariaeth gydweithredol, oherwydd ei natur, yn amrywio o ran math, graddfa, cymhlethdod a risg. O ganlyniad, nid oes un dull o reoli a chefnogi partneriaethau cydweithredol. Er enghraifft, rheolir gweithgaredd risg isel fel cytundebau symudedd

myfyrwyr drwy'r Ganolfan Addysg Ryngwladol. Fodd bynnag, mae gweithgaredd risg uchel yn aml yn gofyn am ystod o wasanaethau proffesiynol a staff academaidd i gefnogi ei weithrediad llwyddiannus a'i ddarpariaeth barhaus.

- Fel isafswm, bydd gweithgaredd cydweithredol risg uchel yn cael ei gefnogi gan:

| **Y Ganolfan Addysg Ryngwladol** |
|---|
| Bydd y Ganolfan Addysg Ryngwladol yn darparu cefnogaeth ar gyfer datblygu partneriaethau ar gyfer partneriaid newydd a phartneriaid presennol. Mae hyn yn cynnwys cefnogaeth gyda chwblhau gwaith papur cymeradwyo partneriaeth, cwblhau asesiadau risg cychwynnol a diwydrwydd dyladwy, gwaith papur adnewyddu partneriaeth, a chefnogi datblygiad contractau cyfreithiol-rwym. Bydd y Ganolfan Addysg Ryngwladol yn cydlynu trefniadau teithio i bartneriaid tramor ac yn gyfrifol am ddatblygu a sicrhau cymeradwyaeth achosion busnes ar gyfer darpariaeth Addysg Drawswladol. Bydd staff o'r Ganolfan Addysg Ryngwladol yn gwasanaethu Byrddau Rheoli Partneriaethau ac yn mynychu Grwpiau Gweithredu yn ôl yr angen ar gyfer pob partneriaeth. |
| **Gwasanaethau Myfyrwyr ac Academaidd** |
| <u>Tîm Ansawdd a Safonau</u><br>Bydd staff yn y tîm hwn yn darparu cefnogaeth ac arweiniad ar gyfer sicrhau ansawdd a gwella gweithgarwch cydweithredol, gan gynnwys cydymffurfio â gofynion Cod Ansawdd Addysg Uwch y DU yr Asiantaeth Sicrhau Ansawdd. Mae Pennaeth y Gwasanaeth yn cadeirio'r Grŵp Cyflawni - Darpariaeth Gydweithredol ac yn goruchwylio sicrhau ansawdd gweithgarwch y bartneriaeth gydweithredol drwy gymeradwyo'r cwricwlwm a'i gyflwyno wedi hynny ar ôl i gymeradwyaeth strategol gael ei rhoi gan y Panel Portffolio Academaidd. Bydd yr Uned yn cael ei chynrychioli ar Fyrddau Rheoli Partneriaethau a bydd yn adolygu Cynlluniau Rheoli Partneriaethau yn flynyddol. Uwch Swyddog fydd y cyswllt dynodedig o ddydd i ddydd â staff y bartneriaeth ar brosesau a gofynion sicrhau a gwella ansawdd.<br><br><u>Gweinyddu Myfyrwyr</u><br>Bydd staff yn y tîm hwn yn gyfrifol am ddarparu cefnogaeth ar gyfer yr ystod lawn o brosesau gweinyddu myfyrwyr, fel y cytunwyd yn dibynnu ar natur y bartneriaeth. Gallai hyn gynnwys, er enghraifft, cofrestru, cefnogi a gwasanaethu Byrddau Arholi, sefydlu cofnodion myfyrwyr a datrys ymholiadau'n barhaus.<br><br><u>Cefnogi Myfyrwyr</u><br>Staff perthnasol yn dibynnu ar natur y contract, a gall gynnwys y tîm Gyrfaoedd, Cyflogadwyedd a Chefnogi Myfyrwyr neu'r tîm Llesiant a Chynwysoldeb<br><br>Bydd staff y Gofrestrfa yn gwasanaethu cyfarfodydd y Grŵp Gweithredu. Bydd y Grŵp Gweithredu yn cyfarfod o leiaf unwaith y semester a bydd yn cynnwys staff allweddol o'r ddau sefydliad i fonitro ac adolygu trefniadau gweithredu a datblygu ymarfer fel bo'n briodol. Yn ystod cyfnod sefydlu unrhyw bartneriaeth newydd, bydd staff Prifysgol Bangor o'r Grŵp Gweithredu yn cyfarfod yn aml i sicrhau bod prosesau'r Brifysgol wedi'u datblygu'n llawn ar gyfer lansio'r bartneriaeth. Bydd Grwpiau Gweithredu yn adrodd i |

| |
|---|
| Fyrddau Rheoli Partneriaethau fel bo’n briodol ac nid oes ganddynt awdurdod i wneud newidiadau academaidd na chytundebol i'r bartneriaeth. |
| **Arweinydd Academaidd/Tiwtor Cyswllt (neu gyfwerth)** |
| Mae'r Arweinydd Academaidd yn chwarae rhan hollbwysig wrth fonitro ansawdd academaidd, safonau a phrofiad y myfyrwyr o fewn darpariaeth gydweithredol. Fodd bynnag, nid yr Arweinydd Academaidd sydd â'r cyfrifoldeb llwyr am risg sefydliadol sy'n deillio o bartneriaethau cydweithredol.<br><br>Mae’r Arweinydd Academaidd yn gyfrifol am y canlynol:<br>• Monitro cydymffurfiaeth â rheoliadau, Codau Ymarfer a Memorandwm Cytundeb y Brifysgol.<br>• Adrodd pryderon, risgiau neu ddiffyg cydymffurfio yn brydlon drwy lwybrau llywodraethu sefydledig.<br>• Uwchgyfeirio materion i'r Grŵp Gweithredu a/neu'r Bwrdd Rheoli Partneriaethau lle:<br>  o mae pryderon yn cael eu hailadrodd neu heb eu datrys,<br>  o mae ymatebion partneriaid yn annigonol neu'n hwyr,<br>  o gall risgiau fod yn fwy na'r effaith weithredol.<br><br>Rhaid i'r Arweinydd Academaidd uwchgyfeirio pryderon yn uniongyrchol at y Bwrdd Rheoli Partneriaethau, a lle bo angen, at y Grŵp Cyflawni - Darpariaeth Gydweithredol/Panel Portffolio Academaidd (trwy swyddogion priodol), lle mae materion yn cyflwyno risg sylweddol neu strategol bosibl i'r Brifysgol.<br><br>Mae penderfyniadau terfynol ynghylch parhad, gohirio, adfer neu derfynu darpariaeth gydweithredol yn nwylo cyrff llywodraethu ffurfiol y Brifysgol ac nid deiliaid swyddi unigol. |
| **Yr Ysgol Ddoethurol** |
| Yn gyfrifol am ddatblygu a goruchwylio cydweithrediadau ymchwil. |
| **Cefnogaeth Ychwanegol** |
| Efallai y bydd angen cefnogaeth gan amrywiaeth o Wasanaethau Proffesiynol i sicrhau llwyddiant partneriaethau cydweithredol. Bydd yr ystod o gefnogaeth sydd ei hangen yn dibynnu ar anghenion pob project, ei faint, ei raddfa a'i ffocws. Gall enghreifftiau o gefnogaeth ychwanegol gynnwys:<br><br>**Strategaeth, Projectau a Chynllunio:** Staff perthnasol i ddarparu cefnogaeth ar gyfer datblygu Partneriaethau Strategol y Deyrnas Unedig gan gynnwys yr achos busnes a'r asesiad risg ac ar gyfer prosesu ffurflenni data myfyrwyr.<br><br>**Marchnata, Recriwtio a Chyfathrebu:** Aelodau perthnasol o staff y Ganolfan Addysg Ryngwladol neu Farchnata, Recriwtio neu Dderbyniadau<br><br>**Gwasanaethau Digidol:** Aelodau perthnasol o staff y Gwasanaethau Digidol ac Adnoddau Dysgu, yn dibynnu ar ddefnydd systemau a mynediad at adnoddau ar gyfer addysgu a’r ddarpariaeth |

| |
|---|
| **Y Gwasanaeth Cefnogi Ymchwil ac Effaith Integredig:** Staff perthnasol yn dibynnu ar y project ymchwil a'r ffrwd ariannu<br><br>**Gwasanaethau Cyfreithiol:** Staff perthnasol ar gyfer drafftio cytundebau cyfreithiol-rwym ar gyfer pob partneriaeth.<br><br>**Gwasanaethau Ystadau a Champws:** Staff perthnasol yn dibynnu ar anghenion sy'n ymwneud â chyfleusterau a neuaddau preswyl.<br><br>**Adnoddau Dynol:** Staff perthnasol yn dibynnu ar anghenion y bartneriaeth, er enghraifft gall y rhain gynnwys cefnogaeth ar gyfer contractau, fisâu, cyflogres, gwerthusiadau staff neu faterion disgyblu. |

## 7. Sefydlu Partneriaeth Newydd

- Mae'r Brifysgol yn cynnig dull cymesur, sy'n seiliedig ar risg, ar gyfer cymeradwyo partneriaethau newydd a'u rheoli cyn dechrau'r ddarpariaeth:

| | | |
|---|---|---|
| 1 | Cymeradwyaeth Strategol | - Trafodaeth a chefnogaeth yr Ysgol/Coleg drwy Bwyllgor y Coleg perthnasol<br>- Diwydrwydd dyladwy cychwynnol, asesiad risg ac achos busnes ar gyfer cytundebau risg uchel<br>- Cyflwynir gweithgaredd risg uchel yn y Panel Portffolio Academaidd i'w gymeradwyo'n strategol a bydd yn symud ymlaen i'r Bwrdd Gweithredol/Cyngor fel y bo'n briodol gan Ysgrifennydd y Brifysgol.<br><br>- *Mae gweithgaredd risg isel/canolig yn symud ymlaen i'r Grŵp Cyflawni - Darpariaeth Gydweithredol*<br>- *Mae cydweithrediadau ymchwil yn symud ymlaen i'r Pwyllgor Ymchwil* |
| 2 | Cymeradwyaeth a Monitro gan y Brifysgol | - Diwydrwydd dyladwy manwl, asesiad risg, ymweliad â'r safle yn ôl yr angen<br>- Cymeradwyaeth y Pwyllgor Ymchwil ar gyfer cydweithrediadau ymchwil<br>- Cymeradwyaeth y Grŵp Cyflawni - Darpariaeth Gydweithredol o bartneriaeth ar gyfer cytundebau risg isel/canolig<br>- Adroddiadau ac argymhellion y Grŵp Cyflawni - Darpariaeth Gydweithredol ar gyfer cymeradwyo gweithgaredd risg uchel gan Bwyllgorau'r Brifysgol/Bwrdd Gweithredol/Cyngor fel bo'n briodol |

| | | |
|---|---|---|
| 3 | Cam sefydlu cyn dechrau'r ddarpariaeth | Lle bo'n berthnasol, bydd hyn yn cynnwys ystyried gweithdrefnau derbyniadau, recriwtio a marchnata, sefydlu cwricwlwm, hyfforddiant a chadw at bolisïau, gweithdrefnau a rheoliadau, creu llawlyfrau, creu safleoedd Amgylchedd Dysgu Rhithiol a darparu mynediad i staff partner, sefydlu cyllid myfyrwyr, cadarnhau prosesau cofrestru a gofynion ar gyfer monitro parhaus.<br><br>Ar gyfer projectau mwy a phob project risg uchel, defnyddir Bwrdd Rheoli Partneriaeth i ddatblygu amserlen a monitro bod camau gweithredu yn cael eu cwblhau. |

- Mae gwybodaeth fanwl am bob cam o'r datblygiad wedi'i hamlinellu mewn canllawiau:
  - Canllawiau Cymeradwyaeth Strategol
  - Canllawiau Datblygu a Monitro'r Cwricwlwm (gweithgarwch risg uchel)
  - Canllawiau ar gyfer Datblygu gweithgarwch risg isel a chanolig

- Mae'r gofynion ar gyfer datblygu darpariaeth gydweithredol risg uchel newydd yn bwrpasol i natur y gweithgaredd. Bydd llinellau amser, cynlluniau a llifoedd gwaith clir yn cael eu datblygu gan y Grŵp Rheoli Partneriaeth sy'n goruchwylio'r bartneriaeth.

- Gall ffioedd fod yn berthnasol i ddatblygu projectau risg uwch fel cytundebau Masnachfraint a Dilysu, a dylid cynnwys y rhain yn yr achos busnes. Anogir cydweithwyr i drafod trefniadau ffioedd gyda'r Ganolfan Addysg Ryngwladol (darpariaeth dramor) neu'r Pennaeth Partneriaethau Strategol (darpariaeth y Deyrnas Unedig) ar ddechrau'r broses o ddatblygu unrhyw gynnig.

## 8. Rheoli Partneriaethau

- Prifysgol Bangor fel y sefydliad dyfarnu:

| | |
|---|---|
| Cyhoeddusrwydd | Bydd y Brifysgol yn gweithio i sicrhau bod ganddi reolaeth effeithiol dros gywirdeb holl wybodaeth gyhoeddus, cyhoeddusrwydd a gweithgaredd hyrwyddo yn ymwneud â'i darpariaeth gydweithredol.<br><br>Bydd y Brifysgol yn gweithio i sicrhau bod yr holl wybodaeth sydd ar gael yn gyhoeddus yn cydymffurfio â chanllawiau'r Asiantaeth Sicrhau Ansawdd yn ogystal â chanllawiau Diogelu Defnyddwyr a'r Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd neu gyfwerth.<br><br>Ar gyfer gweithgarwch risg isel/canolig, y Ganolfan Addysg Ryngwladol sy'n gyfrifol am archwilio a monitro'n rheolaidd wybodaeth partneriaid sydd ar gael yn gyhoeddus. Y tîm Ansawdd a Safonau sydd â'r cyfrifoldeb hwn ar gyfer gweithgarwch risg uchel a'r Ysgol Ddoethurol ar gyfer gweithgarwch sy'n gysylltiedig ag ymchwil. |

| | |
|---|---|
| | Ar ôl cwblhau'r broses gymeradwyo a derbyn Memorandwm Cytundeb wedi'i lofnodi, caiff y cydweithrediad ei gofnodi ar y Gofrestr Darpariaeth Gydweithredol. Cynhelir y gofrestr gan y tîm Ansawdd a Safonau a'i monitro drwy'r Grŵp Cyflawni - Darpariaeth Gydweithredol ac mae'n rhan o wybodaeth y Brifysgol sydd ar gael i'r cyhoedd. |
| Gweithredu | Yn dilyn cymeradwyaeth lawn o drefniadau cydweithredol newydd, cyfrifoldeb yr Arweinydd Academaidd yw gweithredu'r cytundeb sy'n llywodraethu'r trefniant o fewn 15 mis i lofnodi'r Memorandwm Cytundeb. Ar gyfer cytundebau ledled y Brifysgol, neu'r rhai sy'n cwmpasu mwy nag un ysgol academaidd, penodir aelod staff priodol (e.e. Deon Ymgysylltu Byd-eang/Deon Addysg a Phrofiad Myfyrwyr) i arwain y bartneriaeth a bydd ganddynt gyfrifoldeb cyffredinol am sicrhau bod y cytundeb yn cael ei weithredu yn unol â'i delerau. Lle nad yw'r cytundeb wedi'i weithredu yn unol â'r amserlen benodedig, rhaid ceisio caniatâd i'w weithredu ar ddyddiad diweddarach gan y Panel Portffolio Academaidd, gan gynnwys ailgymeradwyo achos busnes wedi'i ddiweddaru (lle bo'n berthnasol).<br><br>Mae copïau gwreiddiol wedi'u llofnodi o gytundebau yn cael eu cadw gan y Gwasanaethau Cyfreithiol, gyda chopïau ar gael yn y safleoedd Microsoft Teams perthnasol a reolir gan y Tîm Ansawdd a Safonau. |
| Safonau Academaidd | Y Brifysgol sy'n gyfrifol yn y pen draw am safonau academaidd ac ansawdd y cyfleoedd dysgu a gyflwynir, waeth ble mae'r rhain yn digwydd neu pwy a'u darparodd. Mae Bangor yn uniongyrchol gyfrifol am safonau academaidd yr holl gymwysterau a roddir yn ei henw.<br><br>Mae cyfrifoldeb am ansawdd a safonau academaidd rhaglenni cydweithredol yn nwylo'r pwyllgor perthnasol ar lefel y Brifysgol. |
| Cymeradwyaeth Staff Partner | Rhaid i'r Brifysgol ei bodloni ei hun bod gan staff sy'n ymwneud â chyflwyno neu gefnogi rhaglen gydweithredol gymwysterau priodol i gyflawni eu swydd.<br><br>Bydd y tîm Ansawdd a Safonau yn cydlynu cymeradwyaeth holl staff y bartneriaeth sy'n ymwneud â chyflwyno rhaglenni partner. Cyfrifoldeb Arweinydd Academaidd Bangor yw penderfyniadau cymeradwyo. Bydd rhestrau o staff partneriaeth sydd wedi'u cymeradwyo i addysgu ar raglenni cydweithredol yn cael eu cadw gan y tîm Ansawdd a Safonau. Ni all unrhyw aelod staff addysgu ar y rhaglen oni bai ei fod wedi ei gymeradwyo. |
| Recriwtio a Derbyn Myfyrwyr | Rhaid i drefniadau derbyn gydymffurfio â pholisïau a gweithdrefnau perthnasol y Brifysgol. Bydd gweithdrefnau'n cael eu diffinio yn nogfennaeth y bartneriaeth. Dim ond myfyrwyr sy'n bodloni'r safonau |

| | |
|---|---|
| | gofynnol o ran hyfedredd yn y Saesneg a'r Gymraeg y gall y Brifysgol eu derbyn. |
| Cyfrifoldebau tuag at fyfyrwyr | Rhaid i ddarpar fyfyrwyr dderbyn esboniad clir a realistig o'r disgwyliadau a roddir arnynt ar gyfer astudio, gan gynnwys natur a graddfa agweddau annibynnol, cydweithredol a chyda chefnogaeth ar ddysgu, ac ymrwymiadau'r sefydliad dyfarnu a darparwr y gefnogaeth (os yw'n briodol) ar gyfer cefnogi rhaglen neu elfen o astudio.<br><br>Rhaid i'r sefydliad dyfarnu fonitro'n rheolaidd y wybodaeth a roddir gan y sefydliad partner neu'r asiant i ddarpar fyfyrwyr a'r rhai sydd wedi cofrestru ar y rhaglen gydweithredol.<br><br>Rhaid i fyfyrwyr gael mynediad at ddisgrifiadau o unedau neu fodiwlau cydrannau rhaglen neu elfen astudio, i ddangos y deilliannau dysgu bwriadedig a dulliau addysgu, dysgu ac asesu'r uned neu'r modiwl ac amserlen glir ar gyfer cyflwyno eu deunyddiau astudio ac ar gyfer asesu eu gwaith.<br><br>Rhaid i'r sefydliad dyfarnu sicrhau y gall myfyrwyr fod yn hyderus:<br>- bod cefnogaeth ar gyfer dysgu, boed yn cael ei darparu drwy staff darparwr cefnogaeth neu drwy sianeli cyflwyno ar y we neu sianeli cyflwyno eraill, yn bodloni disgwyliadau penodedig y sefydliad dyfarnu ar gyfer ansawdd cefnogaeth i ddysgwyr ar gyfer rhaglen astudio sy'n arwain at un o'i ddyfarniadau;<br>- bod dibynadwyedd system gyflwyno unrhyw raglen neu elfen a gynigir i'w hastudio wedi cael ei brofi, a bod cynlluniau wrth gefn yn bodoli rhag ofn y bydd y dulliau cyflwyno a gynlluniwyd yn methu.<br>Rhaid i fyfyrwyr gael mynediad at y canlynol:-<br>- Amserlen ar gyfer unrhyw gefnogaeth i ddysgwyr sydd ar gael iddynt drwy weithgareddau wedi'u hamserlennu, er enghraifft sesiynau tiwtorial neu gynadleddau ar y we<br>- Gwybodaeth glir a chyfredol am y gefnogaeth ddysgu sydd ar gael iddynt yn lleol ac o bell ar gyfer eu rhaglen neu elfennau o astudio<br>- Cyswllt dynodedig, naill ai'n lleol neu o bell, a all roi adborth adeiladol iddynt ar berfformiad academaidd ac arweiniad awdurdodol ar eu cynnydd academaidd;<br>- Cyfleoedd rheolaidd i rannu profiadau o'r rhaglen gyda myfyrwyr eraill, er mwyn hwyluso dysgu cydweithredol ac i ddarparu sail ar gyfer hwyluso eu cyfranogiad yn y broses o sicrhau ansawdd y rhaglen;<br>- Cyfleoedd priodol i roi adborth ffurfiol ar eu profiad o'r rhaglen. |

| | |
|---|---|
| Asesu myfyrwyr ar raglenni hyfforddedig | Rhaid disgrifio sgôp, ymdriniaeth a strategaeth asesu rhaglen gydweithredol ym Manyleb y Rhaglen (y gellir ei chadw ar WorkTribe). Bydd unrhyw eithriadau i Reoliadau safonol y Brifysgol a fydd yn berthnasol i raglenni cydweithredol wedi'u nodi yn nogfennaeth y rhaglen.<br><br>Yn achos graddau cydweithredol, cymwysterau ar y cyd, dwbl neu ddeuol, rhaid i unrhyw drefniadau trosglwyddo credydau sicrhau bod y cyrsiau neu fodiwlau hynny a gymerir yn y partner, sy'n cyfrannu at gymhwyster Bangor, ar y lefel briodol, ac yn y pen draw bod myfyrwyr yn sicrhau'r nifer gofynnol o gredydau a holl ddeilliannau dysgu'r rhaglen. Ni chaniateir cyfrif ddwywaith.<br><br>Ar gyfer rhaglenni hyfforddedig (ac eithrio credyd a enillwyd mewn sefydliad partner ar gyfer graddau cydweithredol), cynhelir pob math o asesiad yn unol â pholisïau a gweithdrefnau perthnasol y Brifysgol.<br><br>Rhaid i staff o'r Ysgol Academaidd berthnasol, sydd â phrofiad o faes pwnc y rhaglen gydweithredol, graffu'n rheolaidd ar gwestiynau asesu, gwaith myfyrwyr a marcio gan staff partner, yn enwedig yn ystod camau cychwynnol y bartneriaeth.<br><br>Bydd trefniadau ar gyfer Byrddau Arholi'n unol â rheoliadau'r Brifysgol. Bydd byrddau arholi ar gyfer graddau cydweithredol yn cael eu sefydlu fel y'u diffinnir gan reoliadau'r Brifysgol, ac yn cydymffurfio ag adran berthnasol Cod Ansawdd yr Asiantaeth Sicrhau Ansawdd. Rhaid cyflwyno'r canlyniadau asesu i symud ymlaen ar Lefel 4 a Lefel 5 i Fwrdd Arholi perthnasol lefel y Brifysgol i gael eu cymeradwyaeth. Dylid adrodd yr holl ganlyniadau asesu ar gyfer cymwysterau terfynol ar lefelau 4, 5, 6 a 7 i Fwrdd Arholi'r Adran/Cyfadran yn y brifysgol i'w hystyried cyn dyfarnu'r cymhwyster.<br><br>Bydd Prifysgol Bangor yn sicrhau bod sefydliadau partner sy'n ymwneud ag asesu myfyrwyr yn deall ac yn dilyn y safonau gofynnol fel y cânt eu mapio i God Ansawdd yr Asiantaeth Sicrhau Ansawdd.<br><br>Rhaid i weithdrefnau arholi allanol ar gyfer rhaglenni a gynigir drwy gytundebau cydweithredol fod yn gyson ag arferion arferol y Brifysgol. Bydd Bangor fydd yn parhau i fod yn gyfrifol yn y pen draw am benodi a rôl arholwyr allanol, gan gynnwys hyfforddiant. Bydd recriwtio a dewis yn cael ei wneud gan gyfeirio at God Ansawdd y Deyrnas Unedig.<br><br>Bydd Arholwyr Allanol yn bresennol mewn Byrddau Arholi. Bydd y Brifysgol yn ystyried crynodeb o sylwadau arholwyr allanol fel rhan o'r gweithdrefnau monitro ar gyfer rhaglenni hyfforddedig. |

| | |
|---|---|
| | Rhaid i fyfyrwyr gael mynediad at y canlynol:<br>- Gwybodaeth am y ffyrdd y bydd eu cyflawniadau'n cael eu barnu, a phwysoliad cymharol unedau, modiwlau neu elfennau'r rhaglen mewn perthynas ag asesu; |
| Apeliadau, cwynion a chamymddwyn academaidd | Rhaid rhoi gwybodaeth i ddarpar fyfyrwyr a myfyrwyr a gofrestrwyd ar raglen gydweithredol am y sianeli priodol ar gyfer lleisio pryderon, cwynion ac apeliadau, gan ei gwneud yn glir iddynt trwy ba sianeli y gallant gysylltu'n uniongyrchol â'r sefydliad dyfarnu. Gall y gweithdrefnau hyn amrywio yn ôl natur y cydweithrediad.<br><br>Yn dibynnu ar natur y gŵyn, bydd angen codi'r gŵyn yn ffurfiol gyda'r Brifysgol neu gyda'r partner cydweithredol. Bydd cwynion yn cael eu prosesu yn unol â pholisi'r Brifysgol.<br><br>Rhaid i'r sefydliad partner a'r Brifysgol gadw cofnod o bob cwyn, apêl ac achos o gamymddwyn academaidd. Bydd gwybodaeth yn cael ei chasglu a'i hadrodd i Bwyllgorau'r Brifysgol yn flynyddol. |
| Cyfrifoldebau'r Sefydliad Partner | Bydd cyfrifoldebau'r sefydliad partner yn amrywio yn ôl natur y ddarpariaeth gydweithredol. Bydd manylion penodol wedi'u hamlinellu yn y Cofnod Cyfrifoldebau Darpariaeth Gydweithredol ar gyfer pob partner a/neu'r Memorandwm Cytundeb. |
| Tystysgrifau, Trawsgrifiadau a Chyflwyniadau | Gan y Brifysgol yn unig y bydd awdurdod dros ddyfarnu tystysgrifau a thrawsgrifiadau'n ymwneud â'i rhaglenni astudio a gyflwynwyd drwy raglenni cydweithredol. Yn amodol ar gytundeb â sefydliadau partner ac unrhyw ofynion statudol neu reoleiddiol perthnasol, bydd y Brifysgol yn sicrhau bod y dystysgrif a/neu'r trawsgrifiad (gan gynnwys HEAR lle bo'n briodol) yn cofnodi enw a lleoliad y sefydliad partner sy'n ymwneud â chyflwyno'r rhaglen astudio.<br><br>Bydd trefniadau cyflwyno cymwysterau yn amodol ar gymeradwyaeth y Brifysgol. Gall partneriaid wneud trefniadau ar gyfer seremoni lle cyflwynir tystysgrifau am gymwysterau'r Brifysgol neu benderfynu y gall myfyrwyr fynd i seremoni graddio Prifysgol Bangor.<br><br>Bydd costau rhesymol a ddaw i ran y brifysgol yn sgil y cyfryw seremonïau a chyfranogiad staff angenrheidiol y brifysgol yn cael eu hymgorffori yn yr achos busnes.<br><br>Bydd Graddedigion y rhaglen gydweithredol, yn achos cymwysterau Prifysgol Bangor, yn cael yr hawl i wisgo'r wisg academaidd briodol yn unol â pholisïau a rheoliadau'r Brifysgol.<br><br>Bydd myfyrwyr y dyfernir un o raddau'r brifysgol iddynt yn dod yn aelodau o gyn-fyfyrwyr y brifysgol. |

| | |
|---|---|
| Adnewyddu | Rhaid i'r Brifysgol gael sicrwydd o lywodraethu parhaus, ethos, statws, capasiti, enw da ac addasrwydd cyffredinol partneriaeth ar gyfer adnewyddu cytundeb.<br><br>Bydd y Memorandwm Cytundeb yn nodi hyd y trefniant cydweithredol. Mae cytundebau'n amodol ar eu hadnewyddu, fel rheol bob 5 mlynedd. Fel rheol, dylai'r broses adnewyddu ddigwydd o leiaf 12 mis cyn i'r Memorandwm Cytundeb ddod i ben er mwyn cynyddu'r potensial recriwtio i'r eithaf.<br><br>Caniateir adnewyddu yn amodol ar dderbyn Adroddiad Adnewyddu Partneriaeth cyflawn ac argymhelliad gan y Panel Portffolio Academaidd i'w gymeradwyo gan bwyllgorau perthnasol y Brifysgol fel bo'n briodol. Dyma ganlyniadau posibl Adroddiad Adnewyddu Partneriaeth:<br>- Ail-gymeradwyo gweithgarwch presennol<br>- Ailgynllunio fel cynnig newydd gyda'r partner presennol<br>- Caniatáu i'r bartneriaeth ddod i ben yn unol â thelerau'r Memorandwm Cytundeb<br>- Cychwyn camau i ddod â'r bartneriaeth i ben yn gynnar yn unol â phrosesau cytundebol<br>Gall argymhellion y Grŵp Cyflawni - Darpariaeth Gydweithredol gynnwys cynllun gweithredu i fynd i'r afael ag unrhyw faterion a nodwyd yn ystod yr adolygiad.<br><br>Ar gyfer partneriaethau mwy a risg uchel, mae angen adolygiad llawn o'r achos busnes gan gynnwys cynaliadwyedd ariannol y bartneriaeth hefyd. |
| Terfynu | Gall y Grŵp Cyflawni - Darpariaeth Gydweithredol argymell cau unrhyw drefniant cydweithredol nad yw'n cydymffurfio â'r Memorandwm Cytundeb. Roedd y cytundeb cyfreithiol-rwym yn nodi'r amodau dan yr hyn y gellir terfynu a'r camau angenrheidiol i ddiogelu buddiannau myfyrwyr presennol.<br><br>Os terfynir cytundeb, bydd y Brifysgol a'r Partner, lle bo angen yn dilyn y Broses Dirwyn Addysgu i Ben y Brifysgol, i ymrwymo i Gytundeb Terfynu, a fydd yn nodi cyfrifoldebau a hawliau'r ddau sefydliad a'r myfyrwyr sydd wedi'u cofrestru ar raglenni cydweithredol yr effeithiwyd arnynt. |